OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 3270

Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013

Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

6.—(1) Diwygir Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "rheolau marchnata'r UE" (*"EU marketing rules"*), yn lle "i Reoliad y Cyngor 1234/2007, ac sy'n cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â'r safonau hynny a geir yn Erthyglau 113 ac 113a o Reoliad y Cyngor 1234/2007" rhodder "i Reoliad (EU) 2013, ac sy'n cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â'r safonau hynny a geir yn Erthyglau 74, 75 a 76 o Reoliad (EU) 2013";

(b) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad y Cyngor 1234/2007" ("*Council Regulation 1234/2007*");

(c) yn y diffiniad o "safon farchnata gyffredinol" ("*general marketing standard*") yn lle "Erthygl 113a(1) o Reoliad 1234/2007" rhodder "Erthygl 76(1) o Reoliad (EU) 2013";

(d) yn y diffiniad o "cynnyrch garddwriaethol" ("*horticultural produce*"), yn lle "Reoliad y Cyngor 1234/2007" rhodder "Reoliad (EU) 2013";

(e) ar ôl y diffiniad o "rheolau marchnata'r UE" (*"EU marketing rules"*) mewnosoder y diffiniad canlynol—

> "ystyr "Rheoliad (EU) 2013" (*"Regulation (EU) 2013"*) yw Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;";

(f) yn y diffiniad o "safonau marchnata penodol" ("*specific marketing standards*") yn lle "Erthygl 113(1)(b) o Reoliad y Cyngor 1234/2007" rhodder "Erthygl 75(1)(b) o Reoliad (EU) 2013".

(3) Yn rheoliad 2(3) (dehongli), yn lle "Rheoliad y Cyngor 1234/2007" rhodder "Rheoliad (EU) 2013".

(**1**) O.S. 2009/1551 (Cy. 151), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/2486 (Cy.270)